



Home Office

Deddf Arfau Ymosodol 2019: cynllun ildio ac iawndal ar gyfer arfau tanio ac arfau ymosodol penodol

Canllawiau ar ildio a hawlio iawndal

Rhagfyr 2020

archived

Mae'r trefniadau ildio ac iawndal hyn yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Maent yn ymestyn i'r Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas ag arfau tanio a chyfarpar ategol yn unig.

Cynnwys

1. What is the Offensive Weapons Act surrender and compensation scheme for certain firearms and offensive weapons?	3
2. Cymhwysedd (pobl ac eiddo)	8
3. Hawl (lefel yr iawndal sy'n daladwy)	10
4. Sut i ildio	10
5. Sut i hawlio iawndal	13
6. Beth sy'n digwydd nesaf?	15
7. Cysylltu	15
8. Trin data	16
Atodiad A. Crynodeb o'r eitemau y bydd meddu arnynt yn cael ei wahardd yn rhinwedd Deddf Arfau Ymosodol 2019	17
Atodiad B: Rhestr Gwerthoedd Deddf Arfau Ymosodol	20
Atodiad C: Arfau Ymosodol - Rhestr Wirio	25
Atodiad D: Arfau Tanio, Cyfarpar Ategol a Stociau Bwmp - Rhestr Wirio	28
Atodiad E: Cynllun Ildio ac iawndal Deddf Arfau Ymosodol - Ffurflen Hawlio	30

1. Beth yw cynllun ildio ac iawndal Deddf Arfau Ymosodol 2019 ar gyfer arfau tanio ac arfau ymosodol penodol?

Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o amddiffyn pobl rhag pob math o drais difrifol. Rydym yn cyflenwi blaenoriaethau'r bobl trwy roi 20,000 o heddweision ychwanegol ar y strydoedd dros y tair blynedd nesaf, ac rydym yn rhoi'r cymorth, yr adnoddau a'r pwerau sydd eu hangen ar yr heddlu i amddiffyn y cyhoedd.

Mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 yn rhan bwysig o'r ymateb i drais difrifol ac yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar yr heddlu i fynd ymhellach i fynd i'r afael â thrais difrifol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau newyddi reoli gwerthu cyllyll a sylweddau crydol ac yn cyflwyno troseddau newydd sy'n ymwneud â'u meddiant a'u defnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno Gorchmynion Atal Troseddau Cyllyll newydd.

Bydd y Ddeddf hefyd yn gwahardd arfau ymosodol, cyllyll, reiffiau tanio cyflym, , a stociau bwmp¹. Rhestrir crynodeb o'r eitemau a fydd yn destun gwaharddiad cyffredinol ar eu meddiant yn rhinwedd y Ddeddf Arfau Ymosodol yn Atodiad A. Os ydych chi'n berchen ar unrhyw un o'r eitemau hyn yn gyfreithlon ar hyn o bryd ac na chaniateir i chi eu cadw ar ôl i fesurau yn y Ddeddf gychwyn, dylech ildio'r eitem(au) i'r heddlu. Mae'r cynllun ildio ac iawndal yn caniatáu i chi hawlio iawndal am eitemau sy'n cael eu hildio os ydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac yn ildio ac yn gwneud hawliad yn unol â'r trefniadau a nodir yn y canllawiau hyn a Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (Iawndal) 2020. Ni all cyfanswm gwerth hawliad fod yn llai na £30. Os mai chi yw perchennog un o'r eitemau yr effeithir arnynt, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi ei gludo'n ddiogel i'r orsaf heddlu ddynodedig (lle mae'n briodol), ei ildio i'r heddlu mewn da bryd ac, os ydych yn ceisio iawndal ariannol, wedi cyflwyno eich cais ar yr un pryd ag ildio'ch eitem(au). Ni fydd yn bosibl ceisio iawndal ar unrhyw adeg ar ôl i chi ildio'ch eitem, neu ar unrhyw adeg ar ôl i'r cynllun ildio ac iawndal gau. **Bydd y cynllun yn cychwyn ar 10 Rhagfyr 2020 ac yn cau ar 9 Mawrth 2021.**

Pa eitemau fydd yn cael eu gwahardd?

Rhestrir yr eitemau a fydd yn destun gwaharddiad cyffredinol yn rhinwedd Deddf Arfau Ymosodol 2019 yn Atodiad A.

A fydd rhaid i chi ildio'ch eitem(au)?

Unwaith y bydd y mesurau yn Neddf Arfau Ymosodol 2019 sy'n gwahardd meddiant o'r eitemau a restrir yn Atodiad A yn dod i rym, bydd yn drosedd eu meddiannu, ar wahân i

¹ Mae stociau bwmp neu stociau tanio bwmp yn ddyfeisiau y gellir eu gosod mewn arfau tanio lled-awtomatig i gynyddu'r cyflymder y mae cetrws bwledi yn cael eu tanio.

ychydig o amgylchiadau penodol, fel y crybwyllir yn Atodiad A. Fodd bynnag, cyn iddynt gael eu gwahardd, mae'r Ddeddf yn caniatáu i berchnogion cyfreithiol yr eitemau hyn eu hildio i'r heddlu a hawlio iawndal am eu colled. Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut i ildio'r eitem(au) i'r heddlu er mwyn hawlio iawndal. Dim ond os ildir yr eitem(au) fel rhan o'r cynllun hwn y gellir hawlio iawndal

Beth yw'r cyfnod ildio?

Mae hwn yn gyfnod o dri mis lle byddwch yn gallu ildio'ch arf tanio, cylllell neu arf ymosodol arall i'r heddlu os yw'r cynllun yn ei gwmpasu. Ni ellir hawlio iawndal oni bai eich bod yn ildio'ch eitem(au) yn ystod y cyfnod ildio ac yn cyflwyno cais am iawndal ar yr un amser

Pryd fydd y cyfnod ildio'n cychwyn?

Bydd y cyfnod ildio'n cychwyn ar 10 Rhagfyr 2020, y diwrnod y daw Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (lawndal) 2020 i rym, gan fod y rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer yr iawndal am eitemau sy'n cael eu hildio.

Pryd fydd y cyfnod ildio'n dod i ben?

Bydd y cyfnod ildio'n parhau am dri mis a bydd yn dod i ben ar 9 Mawrth 2021.

Beth i'w wneud os ydych yn berchen ar gyllell neu arf ymosodol arall

Mae'r trefniadau mewn perthynas â chyllyll ac arfau ymosodol yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn unig. Os ydych chi'n berchen ar un o'r cyllyll neu arfau ymosodol eraill ar y rhestr yn Atodiad A, byddwch yn gallu ildio'r eitem hon i'r heddlu mewn gorsaf heddlu ddynodedig a hawlio iawndal amdani. Rhaid i chi gludo'ch eitem yn ddiogel yn unol â'r canllawiau isod. Gallwch ddarganfod eich gorsaf heddlu ddynodedig agosaf trwy wirio gwefan gov.uk neu drwy gysylltu â'ch heddlu lleol. Er mwyn hawlio iawndal, yn gyntaf bydd angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau'r **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac lawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r eitem(au). Gan ddibynnu ar faint o iawndal rydych yn ei geisio, efallai y bydd angen i chi gymryd tystiolaeth gefnogol o werth yr eitem(au) rydych yn eu hildio. **Rhoddir mwy o fanylion ym Mhenodau 2 a 3 ac yn Atodiad C i'r canllawiau hyn.**

Beth i'w wneud os ydych yn berchen ar arf tanio.

Mae'r trefniadau ar gyfer arfau tanio'n berthnasol ledled y Deyrnas Unedig. Os ydych yn berchen ar un o'r arfau tanio a restrir yn Atodiad A a'ch bod yn ddeiliad tystysgrif arfau tanio, mae'n debygol y bydd eich heddlu lleol yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i naill ai drefnu i'ch arf(au) gael eu casglu, neu i drefnu i ddod â hwn i orsaf heddlu ddynodedig ar

amser a dyddiad y cytunir arnynt. Os ydych yn ddeiliad tystysgrif ac yn berchen ar un o'r arfau tanio a restrir yn Atodiad A ac nad ydych yn clywed gan yr heddlu ar ôl i'r cynllun gychwyn, dylech gysylltu â'ch heddlu lleol i drefnu i'ch arf(au) gael eu casglu neu i gytuno ar ddyddiad ac amser i ildio'ch arf(au) tanio mewn gorsaf heddlu ddynodedig. **Rhoddir rhagor o fanylion ym Mhennod 2.**

Er mwyn hawlio iawndal am eich eitem(au), yn gyntaf bydd angen i chi lawrlwytho, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r arf(au) tanio. Yn dibynnu ar faint o iawndal rydych yn ei geisio, efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ategol o werth yr arf(au) tanio rydych yn ei/eu hildio. **Darperir rhagor o fanylion ym Mhennod 3 ac yn Atodiad D i'r canllawiau hyn.**

Beth i'w wneud os ydych yn berchen ar stoc bwmp neu gyfarpar ategol.

Mae'r trefniadau ar gyfer stociau bwmp a chyfarpar ategol yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig. Os ydych yn berchen yn gyfreithlon ar stoc bwmp neu unrhyw ran o'r cyfarpar ategol ²a restrir yn Atodiad A, ac na ellir defnyddio'r cyfarpar ategol na'i addasu i'w ddefnyddio ag unrhyw arf tanio arall nad yw'n arf gwaharddedig, gallwch ildio'r eitemau hyn i'r heddlu mewn gorsaf heddlu ddynodedig er mwyn hawlio iawndal amdanynt. Gallwch ddod o hyd i'ch gorsaf heddlu ddynodedig agosaf trwy edrych ar wefan gov.uk neu drwy gysylltu â'ch heddlu lleol. Er mwyn hawlio iawndal am eich eitem(au), yn gyntaf bydd angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r eitem(au). Gan ddibynnu ar faint o iawndal rydych yn ei geisio, efallai y bydd angen i chi gymryd tystiolaeth gefnogol o werth yr eitem(au) rydych yn eu hildio. **Darperir rhagor o fanylion ym Mhennodau 2 a 3.**

Ni fydd bwledi yn gymwys i gael iawndal, oni bai yr asesir eu bod wedi'u cynllunio neu eu haddasu i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r reiffiau a fydd yn cael eu gwahardd ac na ellid eu defnyddio ag unrhyw arf tanio nad yw'n arf gwaharddedig.

Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn ildio eitem yn ystod y cyfnod ildio?

Unwaith y daw'r cyfnod ildio i ben ar 9 Mawrth 2021, bydd y Llywodraeth yn dechrau gwahardd yr holl eitemau a nodir yn Atodiad A. Os ydych yn dal i feddu ar un o'r eitemau hyn ar y pwynt hwn, a bod eich meddiant yn dod yn anghyfreithlon pan fydd y mesurau yn

²O dan adran 60(2) o'r Ddeddf Arfau Ymosodol, ystyr "cyfarpar ategol" yw cyfarpar, ac eithrio bwledi gwaharddedig, sydd (a) wedi'u cynllunio neu eu haddasu i'w defnyddio mewn cysylltiad ag arfau tanio a waherddir gan y Ddeddf, a (b) nad oes ganddo unrhyw ddefnydd ymarferol mewn cysylltiad ag unrhyw arf tanio nad yw'n arf gwaharddedig.

y Ddeddf Arfau Ymosodol yn cael eu cychwyn, byddwch yn cyflawni tramgwydd troseddol. Unwaith y bydd y cynllun ildio yn cau, byddwch yn dal i allu ildio'r eitem i'r heddlu, ond ni fyddwch yn gallu hawlio iawndal am golli'r eitem.

Sut i ofyn am ffurflen hawlio ildio ac iawndal os na allwch brintio neu gyrchu un ar-lein.

Er mwyn hawlio iawndal ar gyfer eich eitem(au) bydd angen i chi lawrlwytho a chwblhau Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol oddi ar gov.uk a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch y'n ildio'r eitem(au).

Os na allwch lawrlwytho a phrintio'r ffurflen hon gallwch ofyn bod ffurflen yn cael ei phostio atoch trwy anfon cais e-bost at OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk. Bydd angen i chi ddarparu'r cyfeiriad yr hoffech i'r ffurflen gael ei phostio iddo. Bydd angen i chi hefyd sicrhau eich bod yn caniatáu digon o amser i dderbyn a chwblhau'r ffurflen, ac i fynd i orsaf heddlu ddynodedig i ildio'ch eitem(au) a hawlio iawndal cyn i'r cyfnod ildio ddod i ben. Dylech fod yn ymwybodol y bydd mwyafrif staff y Swyddfa Gartref yn gweithio gartref ar hyn o bryd ac am gyfnod y cynllun hwn. Mae hyn yn golygu y gallai gymryd mwy o amser nag arfer i dderbyn ymateb i gais e-bost am ffurflen, ac rydym yn argymhell eich bod yn ystyried hyn, ac yn peidio â'i adael yn rhy hwyr i anfon cais i mewn. Lle bynnag y bo modd, efallai yr hoffech brintio'r ffurflen eich hun gartref neu mewn rhyw leoliad addas arall

A oes angen i chi lenwi ffurflen hawlio cynllun ildio ac iawndal os nad ydych yn ceisio iawndal?

P'un a ydych yn ceisio iawndal ai peidio, os ydych yn ildio eitem, gofynnwn i chi lenwi Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol a'i chyflwyno i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'ch eitem(au). Gofynnir i chi nodi ar y ffurflen a ydych yn ceisio iawndal ai peidio a chwblhau'r adrannau perthnasol. Mae angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn hawlio iawndal. Mae manylion ar sut i gyrchu'r ffurflen i'w gweld uchod.

Beth i'w wneud os oes gennych unrhyw ofynion arbennig neu anghenion hygrychedd.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig neu anghenion hygrychedd a allai effeithio ar eich gallu i ildio'ch eitem(au) dylech gysylltu â'ch heddlu lleol i drafod hyn.

Beth i'w wneud os credwch fod gwerth hanesyddol i'ch cylllell neu'ch arf ymosodol

Os ydych yn berchen ar gyllell, neu arf ymosodol yn y rhestr yn Atodiad A a'ch bod o'r farn y gallai'r eitem fod o ddiddordeb i amgueddfa, gallwch ddewis trosglwyddo'r eitem i'r amgueddfa, yn lle ei hildio i'r heddlu. Byddai angen i chi gysylltu ag amgueddfa berthnasol a cheisio gwneud trefniadau i drosglwyddo'r eitem os yw'n briodol. Bydd amgueddfeydd yn delio â materion o'r fath yn unol â'u polisïau datblygu casgliadau. Penderfyniad a

chyfrifoldeb y perchennog yw gwneud trefniadau o'r fath; ni fyddai unrhyw drosglwyddiadau i amgueddfeydd yn dod o fewn cwrpas y cynllun Ildio ac Iawndal hwn ac o'r herwydd ni all yr heddlu na'r Swyddfa Gartref gynghori ar unrhyw drefniadau na darparu iawndal am unrhyw drosglwyddiadau o'r fath. Dylai trosglwyddiadau i amgueddfeydd ddigwydd cyn i'r cyfnod ildio ddod i ben. I gael rhagor o wybodaeth am drosglwyddo arfau ymosodol i amgueddfa, cysylltwch â chydlynnydd Grŵp Arfau'r Amgueddfeydd: Mark Murray-Flutter mark.murray-flutter@armouries.org.uk neu 0113 220 1876.

Rhaid ildio arfau tanio a restrir o dan Atodiad A i'r heddlu.

A yw cyfyngiadau ar deithio a'r angen am gadw pellter cymdeithasol yn effeithio ar y trefniadau ildio

Rhaid i chi bob amser gadw at unrhyw gyfyngiadau lleol neu genedlaethol sy'n gysylltiedig â Covid sy'n berthnasol yn yr ardal lle rydych yn byw. Ar hyn o bryd, dylai pobl sy'n dymuno ildio arfau wneud hynny yn unol â'r ddogfen ganllawiau cynllun ildio ac iawndal hon, gan gymryd gofal i sicrhau bod pellter cymdeithasol priodol yn cael ei gynnal wrth deithio i ac o orsafoedd heddlu, lle mae angen, a phan ydych yn yr orsaf heddlu. Bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar gov.uk os bydd unrhyw newidiadau i gyfyngiadau Covid-19 yn effeithio ar weithrediad y cynllun.

Os na allwch deithio, er enghraifft oherwydd bod eich oedran neu gyflwr iechyd sy'n bodoli eisoes yn gwneud hyn yn annoeth, efallai yr hoffech ystyried gofyn i rywun arall ildio'r arf(-au) ar eich rhan. Rhaid i chi beidio â gwneud hyn os ydych yn ildio un o'r arfau tanio sy'n rhan o'r cynllun hwn. Dim ond deiliad y dystysgrif all wneud hyn. Fel y nodir yn y canllawiau hyn, rydym yn disgwyl y bydd yr heddlu, yn y mwyafrif helaeth o achosion, yn trefnu i gasglu arfau tanio gan berchnogion, ac os na fyddwch yn clywed gan eich heddlu lleol, dylech gysylltu â nhw.

Os oes angen i chi ofyn i rywun arall ildio'ch arf(-au) ymosodol dylech sicrhau eich bod wedi llenwi a llofnodi'r ffurflen hawlio iawndal eich hun ymlaen llaw, wedi rhoi awdurdodiad ysgrifenedig i'r unigolyn hwnnw wneud hyn ar eich rhan, sicrhau bod yr unigolyn sy'n ildio ar eich rhan hefyd wedi llenwi a llofnodi adran berthnasol y ffurflen a bod y person sy'n ildio'ch eitem(-au) yn rhoi'r ffurflen hawlio i'r heddlu ar yr un pryd ag ildio'r eitem(-au) os ydych yn ceisio iawndal. Fel yr eglurir mewn man arall yn y canllawiau hyn, ni fydd yn bosibl hawlio iawndal ar unrhyw adeg arall am eitemau sydd eisoes wedi'u hildio.

2. Cymhwysedd (pobl ac eiddo)

Ar ôl i'r cynllun ildio gau bydd yn dramgwydd troseddol i feddu ar yr eitemau a nodir yn Atodiad A, oni bai fod gennych amddiffyniad cyfreithlon. Ni fyddwch bellach yn gallu hawlio iawndal gan y Swyddfa Gartref.

Dim ond os mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem, a'ch bod yn ei hildio i'r heddlu yn ystod y cyfnod ildio tri mis y gallwch wneud cais am iawndal ar gyfer eitemau o eiddo sy'n cael eu hildio o dan y cynllun hwn, ac yn unol â'r canllaw hwn. Bydd y cyfnod ildio'n rhedeg rhwng 10 Rhagfyr 2020 a 9 Mawrth 2021.

Cyllyll ac arfau ymosodol eraill – Cymru a Lloegr

I fod yn gymwys i hawlio iawndal ar gyfer un o'r arfau ymosodol a nodir yn Atodiad A (heblaw cylllell seiclon), rhaid i chi:

- fod yn berchennog cyfreithiol yr eitem a, lle mae'n bosibl, dylech ddarparu prawf derbyniol mai chi sy'n berchen ar yr eitem yn gyfreithlon. Gallai hyn gynnwys derbynneb ddyddiedig am ei phrynu, neu ddogfennaeth gyfreithiol yn dangos etifeddiaeth neu drosglwyddo perchnogaeth. Gofynnir i chi hefyd ddarparu datganiad wedi'i lofnodi mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem a'i bod wedi'i chaffael yn gyfreithlon, wrth gwblhau Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol; a'ch
- wedi bod yn berchen ar neu wedi contractio i gaffael yr arf ar **20 Mehefin 2018** neu cyn hynny (oni bai mai cylllell seiclon yw hon, gweler isod). Os gwnaethoch gaffael yr eitem ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i chi ei gwaredu'n ddiogel o hyd a dylech wneud hynny trwy ildio'r eitem i'r heddlu mewn gorsaf heddlu ddynodedig, ond ni fyddwch yn gymwys i hawlio iawndal o dan y cynllun hwn.

Yn achos **cylllell seiclon** rhaid i chi:

- fod yn berchennog cyfreithiol yr eitem a, lle mae'n bosibl, dylech ddarparu prawf derbyniol mai chi sy'n berchen ar yr eitem yn gyfreithlon. Gallai hyn gynnwys derbynneb ddyddiedig am ei phrynu, neu ddogfennaeth gyfreithiol yn dangos etifeddiaeth neu drosglwyddo perchnogaeth. Gofynnir i chi hefyd ddarparu datganiad wedi'i lofnodi mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem a'i bod wedi'i chaffael yn gyfreithlon, wrth gwblhau ffurflen hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol; a'ch
- wedi bod yn berchen ar neu wedi contractio i gaffael yr arf ar **22 Ionawr 2019** neu cyn hynny. Os gwnaethoch gaffael yr eitem ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i chi ei gwaredu'n ddiogel o hyd a dylech wneud hynny trwy ildio'r eitem i'r heddlu mewn

gorsaf heddlu ddynodedig, ond ni fyddwch yn gymwys i hawlio iawndal o dan y cynllun hwn.

Arfau tanio (gan gynnwys stociau bwmp) a chyfarpar ategol – Y Deyrnas Unedig

I fod yn gymwys i hawlio iawndal ar gyfer unrhyw un o'r reifflau tanio cyflym a nodir yn Atodiad A, rhaid eich bod:

- wedi perchen ar neu wedi contractio i gaffael yr arf tanio ar neu cyn **20 Mehefin 2018**, gyda hawl i gael yr arf hwnnw yn eich meddiant yn rhinwedd y ffaith bod gennych dystysgrif arf tanio neu yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

I fod yn gymwys i hawlio iawndal am stoc bwmp, rhaid eich bod:

- wedi perchen ar neu wedi contractio i gaffael y stoc bwmp ar neu cyn **20 Mehefin 2018**, a
- rhaid nad ydych wedi mewnfurio'r stoc bwmp i'r Deyrnas Unedig ar neu ar ôl **4 Rhagfyr 2017**.

I fod yn gymwys i gael iawndal ar gyfer cyfarpar ategol sy'n cael ei ildio o dan y cynllun hwn:

- rhaid i chi fod yn berchennog cyfreithiol a lle mae'n bosibl dylech ddarparu tystiolaeth ddogfennol i ddangos mai chi sy'n berchen ar yr eitem yn gyfreithlon. Gofynnir i chi hefyd ddarparu datganiad wedi'i lofnodi mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem a'i bod wedi'i chaffael yn gyfreithlon
- rhaid eich bod wedi perchen ar neu wedi contractio i gaffael y cyfarpar ar neu cyn **20 Mehefin 2018**;
- rhaid ei bod wedi'i dylunio neu ei addasu i'w defnyddio mewn cysylltiad â reifflau tanio cyflym sy'n cael eu gwahardd o dan y Ddeddf; a
- rhaid iddi beidio â chael unrhyw ddefnydd ymarferol mewn cysylltiad ag unrhyw arf tanio nad yw'n arf gwaharddedig; a

(lle mae'r cyfarpar ategol yn fwledi):

- rhaid bod eich meddiant wedi bod yn gyfreithlon ar bob adeg berthnasol yn rhinwedd dystysgrif arf tanio sydd gennych neu yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

Mae wedi “contractio i gaffael” un o'r eitemau hyn yn golygu eich bod wedi gwneud cytundeb cyfreithiol rhwymol i gaffael yr arf ond nid oedd yn eich meddiant eto.

Ceisir am iawndal trwy gyflwyno Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal Deddf Arfau Ymosodol wedi'i chwblhau i'r heddlu. Mae hon i'w chwblhau ymlaen llaw a'i rhoi i'r heddlu, ag unrhyw ddogfennau ategol, ar adeg ildio. **Darperir rhagor o fanylion ym Mhennod 5.**

3. Hawl (lefel yr iawndal sy'n daladwy)

Mae Atodiad B yn nodi'r rhestr safonol o werthoedd ar gyfer yr eitemau y dylid eu hildio i'r heddlu o dan y cynllun hwn. Dyma'r isafswm o iawndal y bydd y Swyddfa Gartref yn ei dalu i berchnogion cyfreithiol eitemau sy'n cael eu hildio i'r heddlu o dan y cynllun hwn. Os ydych yn ystyried bod eich eitem yn werth mwy na lefel yr iawndal a nodir yn y Rhestr Werthoedd neu os ydych yn hawlio iawndal am eitem sy'n gymwys o dan y Ddeddf Arfau Ymosodol ond nad yw wedi'i chynnwys yn y Rhestr Werthoedd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddigonol o werth yr eitem, y mae'n rhaid ei chyflwyno ar adeg ildio'r eitem i'r heddlu. Yna bydd y dystiolaeth hon yn cael ei hanfon ymlaen at y Swyddfa Gartref i'w hystyried. **Darperir rhagor o fanylion ym Mhennod 5.**

4. Sut i ildio

Cyllyll ac arfau ymosodol eraill – yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig

Yn ystod y cyfnod ildio tri mis, byddwch yn gallu ildio'r eitemau a restrir yn Atodiad A i'ch gorsaf heddlu ddynodedig leol. Gallwch ddod o hyd i'ch gorsaf heddlu ddynodedig agosaf trwy wirio gwefan **gov.uk** neu drwy gysylltu â'ch heddlu lleol. Dylech gysylltu â'r heddlu ymlaen llaw os ydych yn bwriadu ildio nifer fawr o eitemau ar yr un pryd (mwy na 10 eitem) i weld a fyddai'n well gan yr heddlu i chi wneud apwyntiad penodol i fynychu'r orsaf heddlu.

Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i wneud unrhyw eitem(au) rydych yn eu hildio yn ddiogel i'w trin wrth deithio i orsaf yr heddlu a phan ydych ar safle'r heddlu Dylai eitemau gael eu gwneud yn ddiogel i'w trin i chi eich hun ac i'r heddlu a rhaid eu cynnwys mewn modd sy'n caniatáu iddynt gael eu cludo heb achosi gofid na dychryn i aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a allai fod yng ngorsaf ddynodedig yr heddlu. Er enghraifft, rhaid lapio eitemau a'u rhoi mewn bag neu flwch lle mae'n bosibl. **Rhaid iddynt beidio â chael eu cludo ar eich person ar unrhyw adeg** Unwaith y byddwch chi yng ngorsaf yr heddlu, rhaid i chi beidio â chymryd yr eitem allan nes bod heddwes neu aelod o staff yr heddlu yn gofyn i chi wneud hynny.

Os ydych am hawlio iawndal am unrhyw eitem(au) yr ydych yn eu hildio, mae angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu wneud cais gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan

fyddwch chi'n ildio'r eitem(au). Bydd angen i chi hefyd ddod â thystiolaeth gyda chi i gadarnhau pwy ydych chi (megis pasbort dilys neu drwydded yrru) a, lle mae'n bosibl, tystiolaeth i gadarnhau mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem(au) yr ydych yn eu hildio. Os yw'n anodd i'r perchennog cyfreithiol fynd i orsaf heddlu a'ch bod yn ildio eitemau ar eu rhan, rhaid i chi ddod â thystiolaeth i gadarnhau eu hunaniaeth, eu caniatâd i chi ildio'r eitem a, lle mae ar gael, tystiolaeth o berchnogaeth gyfreithiol ar y eitem(au).

Rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflen hawlio i'r heddlu ar yr un pryd ag y byddwch yn ildio eitemau yng ngorsaf yr heddlu; ni dderbynnir hawliadau am iawndal a gyflwynir ar amser gwahanol neu ar ddyddiad diweddarach. Os ildiwch eich eitem i'r heddlu, ni fyddwch yn gallu ei hadennill, er mwyn ildio a hawlio iawndal yn ddiweddarach.

Dylech adolygu'r rhestr o'r arfau a fydd yn destun gwaharddiad cyffredinol a sicrhau eich bod yn deall pa rai sy'n gymwys i gael iawndal, pe byddech yn dymuno gwneud cais. Os dewch ag eitem i orsaf heddlu nad yw'n dod o dan y cynllun, efallai y bydd gofyn i chi ildio'r eitem, heb iawndal, y tu allan i'r cynllun.

Bydd yr heddlu'n cymryd camau i wirio'ch perchnogaeth a'ch cymhwysedd o dan y cynllun, gan gynnwys gwirio bod yr eitem rydych yn ei hildio yn un a gwmpesir o dan y cynllun. Yna bydd yr heddlu'n cymryd meddiant ar yr eitem(au) ac yn rhoi derbynneb i chi os ydych yn ceisio iawndal. Mae'r dderbynneb yn rhoi cyfeirnod unigryw i chi mewn perthynas â'r eitem(au) rydych yn ei/eu hildio at ddibenion olrhain yr hawliad am iawndal. Rhaid i chi gadw'r cyfeirnod unigryw hwn yn ddiogel, oherwydd efallai y bydd ei angen yn nes ymlaen os bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

Yna bydd eich ffurflen hawlio iawndal a'ch dogfennau ategol yn cael ei hanfon ymlaen gan yr heddlu i'r Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei hystyried. Bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi ar ôl i'r hawliad gael ei ystyried.

Nid yw'r ffaith bod yr heddlu'n derbyn eich eitem(au) a ildwyd a'ch ffurflen hawlio iawndal o reidrwydd yn gwarantu y byddwch yn derbyn iawndal. Bydd eich hawliad yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Gartref

Efallai y bydd y Rhestr Wirio a ddarperir yn Atodiad C yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r holl gamau sydd eu hangen i ildio'ch eitem(au) yn llwyddiannus.

Arfau tanio (gan gynnwys stociau bwmp) a chyfarpar ategol – yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig

Mae heddluoedd yn debygol o gysylltu â'r deiliaid tystysgrif arf tanio hynny sydd â'r arfau tanio sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A ynghylch y trefniadau ar gyfer eu hildio. Os na fyddwch yn clywed gan eich heddlu lleol ar ôl dechrau'r cyfnod ildio, a chi yw deiliad y dystysgrif ar gyfer arf tanio a restrir yn Atodiad A, dylech gysylltu â'ch heddlu lleol i naill ai

drefnu i'ch arf(au) tanio gael eu casglu. neu i gytuno ar ddyddiad ac amser i ildio'ch arf(au) tanio mewn gorsaf heddlu ddynodedig.

Efallai y bydd yr heddlu'n rhoi apwyntiad i chi ildio'ch arf(au) tanio mewn gorsaf heddlu ddynodedig leol neu gallent drefnu eu casglu gennych. Os cytunir bod rhaid i chi fynd i orsaf heddlu ddynodedig i ildio'ch eitem(au) rhaid i chi gymryd rhagofalon rhesymol ar gyfer cadw'r arf tanio a/neu'r bwledi yn ddiogel wrth deithio i orsaf yr heddlu a phan ydych ar safle'r heddlu yn unol ag amodau eich tystysgrif arf tanio. **Rhaid i arfau tanio beidio â bod wedi'u llwytho a rhaid eu gwneud yn ddiogel i'w trin i chi eich hun ac i'r heddlu.** Rhaid eu cynnwys mewn modd sy'n caniatáu iddynt gael eu cludo heb achosi gofid na dychryn i aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn yr orsaf heddlu ddynodedig. Er enghraifft, dylid cau eitemau'n ddiogel y tu mewn i orchudd gwn a/neu eu lapio a'u rhoi mewn bag neu flwch lle mae'n bosibl. **Ni ddylid eu cludo ar eich person ar unrhyw adeg, ac ni ddylid eu datgelu nes bod heddwes neu aelod o staff yr heddlu yn gofyn i chi wneud hynny.**

Os ydych am hawlio iawndal ar gyfer unrhyw eitem(au) yr ydych yn eu hildio, mae angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r eitem(au). Bydd angen i chi hefyd ddod â thystiolaeth gyda chi i gadarnhau pwy ydych chi (megis pasbort neu drwydded yrru ddilys) a thystiolaeth i gadarnhau mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem(au) rydych yn eu hildio, a fydd fel arfer eich tystysgrif arfau tanio. Os yw'n anodd i'r perchennog cyfreithiol fynd i orsaf heddlu i ildio cyfarpar ategol (ac eithrio bwledi) a'ch bod yn ildio'r eitemau hyn ar eu rhan, rhaid i chi ddod â thystiolaeth i gadarnhau eu hunaniaeth, eu hawdurdodiad ysgrifenedig i chi ildio ar eu rhan, a lle mae'n bosibl tystiolaeth o berchnogaeth gyfreithiol ar yr eitem(au).

Bydd yr heddlu'n cymryd camau i wirio'ch perchnogaeth a'ch cymhwysedd o dan y cynllun, gan gynnwys sicrhau bod yr arf tanio a/neu'r cyfarpar ategol rydych yn ei/eu hildio yn dod o dan y cynllun. Yna bydd yr heddlu'n cymryd meddiant ar yr arf tanio ac yn rhoi derbynneb i chi os ydych yn ceisio iawndal. Mae'r dderbynneb yn rhoi cyfeirnod unigryw i chi mewn perthynas â'r eitemau sy'n cael eu hildio at ddibenion olrhain yr hawliad am iawndal. Rhaid i chi gadw'r cyfeirnod unigryw hwn yn ddiogel, oherwydd efallai y bydd ei angen yn nes ymlaen os bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

Yna bydd eich hawliad am iawndal yn cael ei anfon ymlaen gan yr heddlu at y Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei ystyried.

Nid yw'r ffaith bod yr heddlu'n derbyn eich eitem(au) a ildwyd a'ch ffurflen hawlio iawndal o reidrwydd yn gwarantu y byddwch yn derbyn iawndal. Bydd eich hawliad yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Gartref

Efallai y bydd y Rhestr Wirio a ddarperir yn Atodiad D yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r holl gamau sydd eu hangen i ildio'ch eitem(au) yn llwyddiannus.

Ydych chi'n Ddeliwr Arfau Tanio Cofrestredig?

Os ydych yn Ddeliwr Arfau Tanio Cofrestredig sy'n dal stociau o'r arfau tanio neu eitemau eraill a restrir yn Atodiad A, dylech gysylltu â'ch heddlu lleol i drafod trefniadau ar gyfer ildio'ch stoc i'r heddlu. Yn yr un modd â deiliaid tystysgrifau unigol, os ydych yn dymuno hawlio iawndal mae angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau **ffurflen hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r eitem(au).

Rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflen hawlio i'r heddlu ar yr un pryd ag y byddwch yn ildio eitemau i'r heddlu; ni dderbynnir hawliadau a gyflwynir am iawndal ar amser gwahanol neu ar ddyddiad diweddarach.

Bydd yr heddlu'n cymryd meddiant ar y stoc rydych yn ei hildio ac yn rhoi derbynneb i chi os ydych yn ceisio iawndal. Mae'r dderbynneb yn rhoi cyfeirnod unigryw i chi mewn perthynas â'r eitemau sy'n cael eu hildio at ddibenion olrhain yr hawliad am iawndal.

Yna bydd eich hawliad am iawndal yn cael ei anfon ymlaen gan yr heddlu at y Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei ystyried.

5. Sut i hawlio iawndal

Mae Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (Iawndal) 2020 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer digolledu eitemau sy'n cael eu hildio. Os ydych am hawlio iawndal am unrhyw eitem(au) rydych yn ei/eu hildio, mae angen i chi lawrlwytho o gov.uk, neu ofyn gan y Swyddfa Gartref, a chwblhau'r **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol** a'i throsglwyddo i'r heddlu pan fyddwch yn ildio'r eitem(au). Bydd angen i chi lenwi holl adrannau perthnasol y ffurflen, gan gynnwys manylion personol a chyfeiriad e-bost ar gyfer cysylltu â chi. **Rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflen hawlio i'r heddlu ar yr un pryd ag y byddwch yn ildio eitemau i'r heddlu; ni dderbynnir hawliadau a gyflwynir ar amser gwahanol neu ar ddyddiad diweddarach.**

Wrth gwblhau Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol, gofynnir i chi nodi ar y ffurflen:

- i. yr eitem rydych yn ei hildio i'r heddlu;
- ii. nifer yr eitemau rydych yn eu hildio;
- iii. a ydych chi'n hawlio iawndal ariannol; ac
- iv. os ydych yn hawlio iawndal ariannol, p'un a ydych yn derbyn prisiad yr eitem(au) a nodir yn y Rhestr Werthoedd a'r Ffurflen Hawlio, neu a ydych yn hawlio swm gwahanol. Os ydych yn hawlio swm gwahanol, bydd angen i chi nodi'r swm a darparu dogfennaeth dderbyniol i ddangos y gwerth hwn.

Mae Rhestr Gwerthoedd Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol yn nodi'r prisiad safonol ar gyfer yr eitemau sy'n gymwys i gael iawndal o dan y cynllun hwn. Mae'r Rhestr Gwerthoedd i'w gweld yn Atodiad B i'r canllawiau hyn. Mae'r gwerthoedd hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y Ffurflen Hawlio.

Os ydych yn hawlio swm heblaw'r gwerth a nodir yn y Rhestr Werthoedd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddigonol i'r heddlu i gefnogi'r swm rydych yn ei hawlio. Gallai'r dystiolaeth hon gynnwys:

- (a) prisiad o dŷ ocsiwn;
- (b) tystiolaeth o'r pris a dalwyd am brynu'r eitem a dyddiad y pryniant;
- (c) tystiolaeth gyhoeddedig o werth yr eitem;
- (d) prisiad gan ddeliwr arfau tanio cofrestredig yn achos arf tanio

Rhaid darparu'r dystiolaeth hon ar adeg yr ildio. **Yn achos hawliad am iawndal ar gyfer unrhyw arf ymosodol unigol sydd dros £250, argymhellir eich bod yn dod â ffotograff o'r eitem fel rhan o'r dystiolaeth o'i werth. Nid yw hyn yn orfodol, ond bydd yn helpu i ystyried eich hawliad am iawndal.**

Pan fydd yr heddlu wedi cymryd eich Ffurflen Hawlio, ar ôl gwirio eich perchnogaeth a'ch cymhwysedd i wneud hawliad, gan gynnwys bod yr eitem yn un a gwmpesir o dan y cynllun, byddant yn llenwi Atodiad B o'r ffurflen hawlio iawndal sydd at ddefnydd yr heddlu yn unig, a fydd yn cynnwys cyfeirnod unigryw mewn perthynas â'ch eitem(au) a ildwyd. Bydd yr heddlu'n yn darparu derbynneb i chi sy'n nodi'r cyfeirnod unigryw at ddibenion olrhain yr hawliad am iawndal. Rhaid i chi gadw'r cyfeirnod hwn yn ddiogel, oherwydd efallai y bydd angen i chi ei ddarparu yn nes ymlaen. Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod eich eitem yn dod o dan y cynllun gan yr ymchwiliwr i unrhyw hawliadau ffug.

O ran stociau bwmp, gellir gwneud hawliadau am iawndal ond rhaid i chi ddarparu prawf o werth.

Dim ond pan fydd cyfanswm gwerth yr hawliad yn £30 o leiaf y gellir gwneud hawliadau.

Efallai y bydd y Rhestrau Gwirio a ddarperir yn Atodiad C a D yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r holl gamau sydd eu hangen i ildio'ch eitem(au) yn llwyddiannus.

6. Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych yn ildio eitem neu eitemau ond ddim yn ceisio iawndal, unwaith y bydd yr heddlu wedi cymryd meddiant ar eich eitem(au) mae'r broses ildio wedi'i chwblhau. Bydd eich eitem(au) yn cael ei/eu gwaredu o dan weithdrefnau gweithredol arferol yr heddlu.

Os ydych yn ildio eitem neu eitemau ac yn ceisio iawndal, unwaith y bydd yr heddlu wedi cymryd meddiant ar eich eitem(au) byddant yn cadw'r eitem nes bydd unrhyw hawliad am iawndal wedi'i benderfynu oni bai bod yr eitem honno'n peri risg diogelwch. Ar ôl penderfynu, bydd yr eitem(au) yn cael ei/eu gwaredu o dan weithdrefnau gweithredol arferol yr heddlu neu lle mae'n peri risg diogelwch efallai y bydd angen ei dinistrio'n gynt.

Os ydych wedi ildio eitem a'ch bod yn ceisio iawndal ac wedi nodi hyn ar Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol, yna bydd eich ffurflen ac unrhyw ddogfennau ategol a gyflwynir i'r heddlu, gan gynnwys tystiolaeth o werth lle mae'n briodol ac unrhyw ffotograff, cael ei hanfon ymlaen gan yr heddlu at y Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei hystyried.

Fe'ch hysbysir gan y Swyddfa Gartref ar ôl i'ch hawliad gael ei ystyried a byddwch yn cael gwybod am y swm sydd i'w dalu i chi mewn iawndal, ac yna bydd y taliad iawndal yn cael ei wneud i chi. Os penderfynir am unrhyw reswm na ddylid talu iawndal, fe'ch hysbysir o hyn ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.

Os oes angen i'r Swyddfa Gartref gysylltu â chi mewn perthynas â'ch hawliad, er enghraifft i egluro manylion ar y ffurflen neu i drafod y dystiolaeth o werth rydych wedi'i chyflwyno, byddant yn defnyddio'r manylion cyswllt rydych wedi'u darparu ar eich ffurflen hawlio.

7. Cysylltu

Os oes gennych ymholiad mewn perthynas â'ch hawliad, gallwch ei anfon at dîm gweinyddol y Swyddfa Gartref trwy e-bost yn

OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk

Os yw mewn perthynas â hawliad a wnaethoch eisoes, cofiwch gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeirnod unigryw.

8. Trin data

Bydd eich manylion yn cael eu cadw gyda'r heddlu a'r Swyddfa Gartref a'u cofnodi ar system y tîm gweinyddol a'u trin yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae Siarter Gwybodaeth Bersonol y Swyddfa Gartref yn esbonio sut rydym yn gofalu am eich gwybodaeth ac mae i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/home-office/about/personal-information-charter>.

archived

Atodiad A: Crynodeb o'r eitemau y bydd meddiant arnynt yn cael eu gwahardd yn rhinwedd Deddf Arfau Ymosodol 2019

Mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 yn rhan bwysig o'r ymateb i drais difrifol ac yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar yr heddlu i fynd ymhellach i fynd i'r afael â thrais difrifol. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn delio â meddiant ar erthyglau llafnog ac arfau ymosodol penodol yn y Deyrnas Unedig ac mae Rhan 6 yn mynnu bod arfau tanio penodol yn destun gwaharddiad cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r trefniadau ildio ac iawndal, a nodir yn y canllawiau hyn, yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn unig mewn perthynas â'r arfau hynny a waherddir o dan Ran 4 o'r Ddeddf ac maent yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig mewn perthynas ag arfau tanio a chyfarpar ategol.

Ymhlith mesurau eraill, mae'r Ddeddf Arfau Ymosodol yn ymestyn y rheolaethau (o dan Ddeddf Cyfyngu Arfau Ymosodol 1959, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, Deddf Arfau Tanio 1968 a Gorchymyn Arfau Tanio (Gogledd Iwerddon) 2004) i wahardd meddiant preifat ar arfau peryglus ac ymosodol ac i wneud arfau tanio penodol yn destun gwaharddiad cyffredinol i'w hatal rhag cael eu defnyddio mewn troseddau.

Mae'r rhestr o'r arfau tanio a'r arfau a fydd yn ddarostyngedig i'r gwaharddiad ar feddiant yn rhinwedd Deddf Arfau Ymosodol 2019 ac a fydd yn gymwys i gael iawndal i'w gweld yn y Rhestr Werthoedd yn Atodiad B.

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r newidiadau a ddaeth yn sgil Rhan 4 (i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru a Lloegr) a Rhan 6 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 sy'n ymwneud â throseddau am feddu ar arfau ac arfau tanio, a'r amddiffynfeydd sy'n berthnasol, er mwyn eich helpu i nodi a yw unrhyw eitemau sydd gennych yn dod o fewn eu cwrpas ac a ddylid eu hildio. Gellir gweld y ddeddfwriaeth yma:

Deddf Arfau Ymosodol 2019 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2019/17/contents>

Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/33/contents>

Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/37/contents>

Deddf Arfau Tanio 1968 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/27/contents>

Gorchymyn Arfau Tanio (Gogledd Iwerddon) 2004 -

<http://www.legislation.gov.uk/nisi/2004/702/contents/made>

Cylllyll clec a chylllyll disgrychiant:

Ar hyn o bryd, mae adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 yn ei gwneud yn drosedd cynhyrchu, gwerthu neu logi, cynnig i'w gwerthu neu ei logi, ei datgelu neu feddu arno at ddibenion gwerthu neu logi, benthyca neu roi i berson arall neu fewnforio cylllyll clec a chylllyll disgrychiant.

Mae adran 43 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn diwygio'r diffiniad o gyllell glec yn adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 i gynnwys cyllyll y gellir eu hagor trwy fecanwaith nad yw yn y ddolen ei hun. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyllell sy'n agor yn awtomatig o safle caeedig, neu safle sydd wedi'i agor yn rhannol, i safle sydd wedi'i agor yn llawn trwy unrhyw bwysau â llaw sy'n cael ei roi ar fotwm, sbring neu ddyfais arall sydd wedi'i chynnwys naill ai yn y gyllell neu sydd ynghlwm wrthi.

Mae adran 44 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn diwygio Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 ymhellach i wahardd meddiant ar unrhyw gyllell o dan adran 1 o'r Ddeddf honno, h.y. cyllell glec neu gyllell disgrychiant

Fodd bynnag, mae'r diwygiadau hyn yn darparu ar gyfer amddiffyniad lle gall person ddangos ei fod yn meddu ar gyllell glec/disgrychiant yn rhinwedd ei swydd fel gweithredwr amgueddfa neu oriel neu fel person sy'n gweithredu ar ran amgueddfa neu oriel.

Arfau Ymosodol

Mae adran 46 o Ddeddf Arfau Ymosodol yn diwygio adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i'w gwneud yn drosedd meddu'n breifat ar yr arfau a nodir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988. Mae'r arfau a restrir yn y Gorchymyn hwn wedi'u nodi isod. Mae eisoes yn drosedd, o dan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i weithgynhyrchu, gwerthu, llogi, (cael yn eich meddiant at ddibenion gwerthu neu logi), benthyca neu fewnforio'r arfau hyn.

Yr arfau a restrir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 yw:

- dyfais figwrn - band o fetel neu ddeunydd caled arall wedi'i wisgo ar un bys neu fwy, ac wedi'i gynllunio i achosi anaf, ac unrhyw arf sy'n ymgorffori dyfais figwrn;
- ffon gleddyf - ffon gerdded neu gansen wag sy'n cynnwys llafn y gellir ei defnyddio fel cleddyf;
- yr arf a elwir weithiau'n "grafanc-law" - sef band o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwithio allan ohono, ac wedi'i wisgo o amgylch y llaw;
- yr arf a elwir weithiau'n "gyllell bwcl gwregys" - sef bwcl sy'n ymgorffori neu'n cuddio cyllell;
- yr arf a elwir weithiau'n "ddagr gwithio" - sef cyllell y mae ei handlen yn ffitio o fewn dwrn caead ac y mae ei llafn yn ymwithio allan rhwng dau fys;
- cleddyf - â llafn crwm o 50 centimetr neu fwy o hyd; ac at y dibenion hyn, hyd y llafn yw'r pellter llinell syth o ben yr handlen i flaen y llafn;
- pastwn clo ffrithiant syth, â handlen ar yr ochr, a elwir weithiau'n faton-;

- yr arf a elwir weithiau'n "gyllell lechwraidd" - cyllell neu bigyn, sydd â llafn, neu bwynt miniog, wedi'i wneud o ddeunydd nad yw'n hawdd ei ganfod gan gyfarpar a ddefnyddir i ganfod metel ac nad yw wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio yn y cartref nac ar gyfer defnydd domestig nag i'w ddefnyddio wrth brosesu, paratoi neu fwyta bwyd neu fel tegan;
- yr arf a elwir weithiau'n "gyllell gudd" - unrhyw gyllell sydd â llafn gudd neu big miniog cudd ac sydd wedi'i chynllunio i ymddangos yn wrthrych bob dydd o fath sy'n cael ei gario'n gyffredin ar y person neu mewn bag llaw, cês llaw, neu fagiau llaw eraill (fel crib, brwsh, offeryn ysgrifennu, taniwr sigarêts, allwedd, minlliw neu ffôn)
- yr arf a elwir weithiau'n "kubotan gwag" - sef cynhwysydd silindrog sy'n cynnwys nifer o bigau miniog;
- yr arf a elwir weithiau'n "grafanc droed" - sef bar o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwithio allan ohono, ac sy'n cael ei wisgo wedi'i strapio i'r droed;
- yr arf a elwir weithiau'n "shuriken", "shaken" neu "seren marwolaeth" - sef plât caled anhyblyg â thri phig miniog neu fwy o'i amgylch ac wedi'i gynllunio i'w daflu;
- yr arf a elwir weithiau'n "balisong" neu "gyllell glöyn byw" - sef llafn wedi'i hamgáu gan ei handlen, sydd wedi'i chynllunio i hollti i lawr y canol, heb weithrediad sbring na modd mecanyddol arall, i ddatgelu'r llafn;
- yr arf a elwir weithiau'n "bastwn telesgopig" - sef pastwn sy'n ymestyn yn awtomatig trwy bwysau llaw a roddir ar fotwm, sbring neu ddyfais arall yn ei handlen neu sydd ynghlwm wrthi;
- yr arf a elwir weithiau'n "bibell chwythu" neu "gwn chwythu" - sef tiwb gwag y mae pelenni caled neu ddartiau yn cael eu saethu ohono trwy ddefnyddio anadl;
- yr arf a elwir weithiau'n "kusari gama" - sef darn o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gryman;
- yr arf a elwir weithiau'n "kyoketsu shoge" - sef darn o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gyllell fachog;
- yr arf a elwir weithiau'n "manrikigusari" neu "kusari" - sef hyd o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar bob pen i bwysau caled neu afael llaw.

Mae adran 47 o'r Ddeddf Arfau Ymosodol yn diwygio'r arfau a restrir yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 i gynnwys cyllyll sombi a chyllyll troellog/seiclon. Felly bydd meddiant preifat ar yr arfau hyn hefyd yn cael ei wahardd yn rhinwedd y Ddeddf Arfau Ymosodol. Diffinnir y rhain fel:

- “cyllell sombi” - sef llafn â min sy'n torri; min danheddog; a delweddau neu eiriau (p'un ai ar y llafn neu'r handlen) sy'n awgrymu ei fod i'w defnyddio at ddibenion trais;
- “cyllell seiclôn” neu “gyllell droellog” - sef arf â handlen, llafn â dau fin neu fwy sy'n torri, pob un yn ffurfio helics, a phig miniog ar ddiwedd y llafn.

Diffinnir lle preifat fel lle heblaw (a) man cyhoeddus (b) safle ysgol (c) safle addysg bellach (ch) carchar - oherwydd bod deddfwriaeth eisoes yn atal meddiant yn y lleoedd hynny.

Bydd nifer o amddiffyniadau a nodir yn adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gymwys i'r drosedd newydd o feddiant yn breifat o dan adran 141(1A) newydd y Ddeddf honno:

- Pan yw meddiant at ddibenion swyddogaethau a gyflawnir ar ran y Goron neu lu sy'n ymweld.
- Lle mae'r arf yn un o bwysigrwydd hanesyddol.
- Pan yw ym meddiant unigolyn yn rhinwedd ei swydd fel gweithredwr, neu fel person sy'n gweithredu ar ran amgueddfa neu oriel
- Pan yw meddiant at ddibenion addysgol yn unig.
- Pan yw meddiant dim ond at y diben o drefnu bod yr arf ar gael at ddibenion perfformiadau theatrig a chynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu.

Darperir ar gyfer amddiffyniadau pellach hefyd yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988:

- Mae hen bethau wedi'u heithrio o'r Gorchymyn ac felly nid yw'n drosedd meddu ar yr arfau hyn os ydynt yn hen bethau - a weithgynhyrchwyd fwy na 100 mlynedd yn ôl.
- Mae'n amddiffyniad i feddu ar gleddyfau a ddisgrifir yn y Gorchymyn os:
 - dangosir bod yr arf wedi'i wneud cyn 1954 neu ei fod wedi'i wneud ar unrhyw adeg arall yn ôl y dulliau traddodiadol o wneud cleddyfau â llaw;
 - dangosir bod meddiant am resymau crefyddol neu at ddibenion trefnu bod yr arf ar gael at ddibenion ei ddefnyddio mewn seremonïau crefyddol am resymau crefyddol;
 - dangosir mai dim ond trefnu bod yr arf ar gael ar gyfer, neu gymryd rhan mewn gweithgaredd a ganiateir, yw meddiant – h.y. ailddeddfiad hanesyddol neu weithgaredd chwaraeon;
 - (da) mae'r person â meddiant yn Sikh ac mae'r meddiant at y diben yn unig o'i gyflwyno i berson arall mewn seremoni grefyddol neu ddigwyddiad seremonïol arall; neu,

(db) cyflwynwyd y cleddyf i'r person gan Sikh mewn seremoni grefyddol neu ddigwyddiad seremonïol arall; neu,

(dc) mae meddiant at y diben dim ond i sicrhau bod y cleddyf ar gael i'w gyflwyno gan Sikh i berson arall mewn seremoni grefyddol neu ddigwyddiad seremonïol arall.

I grynhoi, mae'r amddiffyniadau yn (d) uchod yn sicrhau y gall gweithred rhoi seremonïol o'r kirpan Sikh ddigwydd yn gyfreithlon.

Arfau tanio

Mae adrannau 54 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn diwygio adran 5 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 i wneud reifflau tanio cyflym a stociau bwmp yn destun gwaharddiad cyffredinol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, sy'n golygu na ellir eu dal heb awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban.

O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, ni fydd modd dal reifflau tanio cyflym ar dystysgrif arf tanio mwyach. Diffinnir y rhain fel unrhyw reiffl gyda siambr lle mae casys cetris gwag yn cael eu tynnu gan ddefnyddio ynni o nwy gyriant, neu egni a roddir i ffynnon neu ddyfais storio ynni arall gan nwy gyriannol, heblaw reiffl sydd â siambr ar gyfer cetris .22 tanio-ymyl.

Mae adran 55 o'r Ddeddf Arfau Ymosodol yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Erthygl 45 o Orchymyn Arfau Tanio (Gogledd Iwerddon) 2004.

Atodiad B: Rhestr Gwerthoedd y Ddeddf Arfau Ymosodol**ARFAU TROSEDDOL (LLOEGR A CHYMRU YN UNIG)**

Nodyn: Gellir hawlio iawndal am unrhyw un o'r eitemau a restrir isod dim ond os mai cyfanswm y cais yw £30 neu fwy.

Eitem	Gwerth Safonol
Cyllell glec (neu 'gwn clec')	£20
Cyllell disgrychiant	£40
Cyllell sombi	£10
Cyllell seiclun (a elwir hefyd yn 'gyllell droellog')	£30
Cleddyf crwm	£15
Pastwn	£10
Cyllell llechwraidd	£3
Cyllell cudd	£5
Dyfais migyrnau	£2
Ffon cleddyf	£12
Crafanc llaw	£9
Cyllell bwcl gwregys	£5
Dagr gwthio	£2
Kubotan gwag	£3
Crafanc troed	£7
Shuriken (a elwir hefyd yn 'shaken' neu 'seren marwolaeth')	£5
Balisong (a elwir hefyd yn 'gyllell glöyn byw')	£9
Pastwn telesgopig	£20
Pibell chwythu (a elwir hefyd yn 'gwn chwythu')	£14
Kusari gama	£35
Kusari (neu manrikigusari)	£10

Kyoketsu shoge	£20

ARFAU TANIO (LLOEGR, CYMRU, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON)

Eitem	Gwerth Safonol
Rhyddhau â Lifer 9mm	£2,240
Rhyddhau â Lifer .45 ACP	£2,362
Rhyddhau â Lifer .223	£4,445
Rhyddhau â Lifer .308	£5,105
Reiffi VZ58 MARS (calibr 5.56 x 45 a calibr 7.62 x 39)	£1,950
Stoc bwmp	Amherthnasol

CYFARPAR ATEGOL ARFAU TANIO (LLOEGR, WALES, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON)

Nodyn: Gellir hawlio iawndal am unrhyw un o'r eitemau a restrir isod dim ond os mai cyfanswm y cais yw £30 neu fwy.

Eitem	Gwerth Safonol
Dolen lenwi AR wedi'i huwchraddio	£90
Cliciedi wedi'u huwchraddio	£150
Pen blaen wedi'i uwchraddio	£150
Gafael pen blaen, rheiliau gafael, VFG's ac ati	£50
Gafaelion pistol	£26
Cydosodiadau tiwb clustogi	£60
Stoc carn	£60
Pinnau Gweithredu	£20

Anelau Haearn	£115
Mowntiau Sling	£50
Gafiau yr un	£70
Dewiswyr diogelwch	£50
Botymau ystorgell	£45
Ystorgelloedd	£28
Anelau electronig	£170
Sgopau reiffl optegol	£160
Mowntiau Anelau	£50

archived

Atodiad C: Arfau Ymosodol – Rhestr Wirio

1	A yw'ch arf ymosodol yn gymwys o dan gynllun ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol? Bydd Atodiad A ac Atodiad B y canllawiau yn eich helpu i ateb y cwestiwn hwn. Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 2. Os mai 'ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 3.
2	Os nad yw'ch arf yn gymwys o dan y cynllun hwn gallwch ei ildio i'r heddlu o hyd, ond ni allwch hawlio iawndal.
3	Os yw'ch arf yn gymwys, a yw eich arf (neu gyfanswm yr arfau cymwys yr ydych yn bwriadu eu hildio) yn werth £30 neu fwy? Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 4. Os mai 'ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 4.
4	Os yw'ch arf yn gymwys o dan y cynllun ond bod gwerth eich cais arfaethedig yn llai na £30, rhaid i chi ei ildio i'r heddlu o hyd, ond ni allwch hawlio iawndal.
5	Os yw gwerth eich cais arfaethedig yn £30 neu fwy, a ydych am hawlio iawndal ariannol am werth yr eitem rydych yn ei hildio? Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn, ewch i gam 6. Os mai 'ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn, ewch i gam 7.
6	Os nad ydych yn dymuno hawlio iawndal, dylech ddal i lenwi adrannau A, B, C ac E o'r ffurflen iawndal. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, gallwch ofyn am ffurflen trwy e-bost yn OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk . Yna dylech fynd â'ch arf a'r ffurflen wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 10 isod) gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch storio'n ddiogel wrth deithio ac ystyried unrhyw gyfyngiadau teithio sy'n berthnasol.
7	Os ydych yn dymuno hawlio iawndal, a ydych yn derbyn gwerth safonol iawndal am eich eitem fel y nodir yn y Rhestr Werthoedd gyhoeddedig (mae Atodiad B y canllawiau'n darparu rhagor o wybodaeth)? Os mai 'ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 8. Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 9.

8	Os derbyniwch werth safonol yr iawndal, rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen hawlio iawndal. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, dylech ofyn am ffurflen trwy e-bost yn OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk. Yna dylech fynd â'ch arf a'r ffurflen hawlio wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 10 isod) ', gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch storio'n ddiogel wrth deithio.
9	Os nad ydych yn derbyn gwerth safonol yr iawndal ac yn dymuno ceisio swm gwahanol, rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen hawlio iawndal a chael tystiolaeth i gefnogi'r gwerth uwch yr ydych yn ei hawlio. Os ydych yn hawlio iawndal dros £250 am unrhyw eitem, argymhellir eich bod hefyd yn tynnu llun o'r eitem os gallwch chi. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen hawlio iawndal o gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, dylech ofyn am ffurflen trwy e-bost yn OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk. Yna dylech fynd â'ch arf, y ffurflen hawlio wedi'i chwblhau'n llawn, tystiolaeth ychwanegol a ffotograff os yw ar gael, i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 10 isod) gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch storio'n ddiogel wrth deithio ac ystyried unrhyw gyfyngiadau teithio sy'n berthnasol.
10	Ydych chi'n gallu teithio i orsaf heddlu ddynodedig? Gallwch ddod o hyd i'r orsaf heddlu ddynodedig agosaf atoch drwy edrych ar y rhestr ar gov.uk neu drwy gysylltu â'ch heddlu lleol. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gofalu bod pellter cymdeithasol priodol yn cael ei gynnal wrth deithio i ac o orsafoedd heddlu. Os ydych yn gallu teithio'ch hun i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 12. Os nad ydych yn gallu teithio'ch hun i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 11.
11	Os nad ydych yn gallu teithio'ch hun i orsaf heddlu ddynodedig, gallwch ofyn i rywun arall wneud hyn ar eich rhan. Dylech roi iddynt eich ffurflen hawlio wedi'i chwblhau'n llawn, yr arf rydych chi'n ei ildio, tystiolaeth o werth os yw'n briodol a llun, os yw'n briodol ac yn bosibl, ynghyd ag awdurdodiad ysgrifenedig i'r unigolyn hwnnw ildio'ch arf ar eich rhan. Bydd angen iddynt fynd â rhyw fath o fodd adnabod gyda nhw, rhaid iddynt ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch storio arfau'n ddiogel wrth deithio ac yng ngorsaf yr heddlu, cynnal pellter cymdeithasol priodol wrth deithio a chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau teithio sy'n berthnasol. Nawr ewch i gam 12.

12	Gallwch chi, neu'ch cynrychiolydd awdurdodedig ildio'ch eitem mewn gorsaf heddlu ddynodedig, gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch cadw'r arf yn ddiogel wrth deithio ac yng ngorsaf yr heddlu, a chan ddilyn cyfarwyddiadau a roddir gan yr heddlu. Bydd hefyd angen cynnal pellter cymdeithasol pan ydych yng ngorsaf yr heddlu. Rhaid i chi, neu'ch cynrychiolydd, ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynghylch storio arfau yn ddiogel wrth deithio ac yng ngorsaf yr heddlu, cynnal pellter cymdeithasol priodol wrth deithio a chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau teithio sy'n berthnasol. Rhoddir cyfeirnod unigryw i chi neu'ch cynrychiolydd y dylech ei gadw'n ddiogel i'w ddefnyddio yn y dyfodol
13	Bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl ynghylch eich cais am iawndal.

archived

Atodiad D: Arfau tanio, cyfarpar ategol a stociau bwmp – Rhestr wirio

1	A yw eich arf tanio, cyfarpar ategol a/neu stoc bwmp yn gymwys o dan gynllun ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol? Bydd Atodiad A ac Atodiad B y canllawiau yn eich helpu i ateb y cwestiwn hwn. Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 2. Os mai 'ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 3.
2	Os nad yw'ch arf tanio, cyfarpar ategol a/neu stoc bwmp yn gymwys o dan y cynllun hwn a bod gennych dystysgrif arfau tanio dilys ar gyfer eich arfau tanio nid oes unrhyw ofyniad i chi ildio'ch eiddo.
3	Os ydych yn ceisio ildio cyfarpar ategol a/neu stoc bwmp yn unig, ewch i gam 4. Os ydych yn ceisio ildio arf tanio, gyda neu heb gyfarpar ategol neu stoc bwmp, ewch i gam 7.
4	Os ydych yn ceisio ildio cyfarpar ategol a/neu stoc bwmp yn unig ac mae hyn yn gymwys o dan y cynllun, a yw'r eitem (neu gyfanswm yr eitemau cymwys rydych yn bwriadu eu hildio) yn werth £30 neu fwy? Os mai 'nac ydy' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i gam 5. Os mai 'ydy' ewch i gam 6.
5	Os yw gwerth eich cyfarpar ategol (heblaw bwledi cymwys) yn llai na £30, ni fyddwch yn gallu cyflwyno cais am iawndal am y cyfarpar.
6	Os yw gwerth eich cais arfaethedig am gyfarpar ategol (ac eithrio bwledi) yn £30 neu fwy, a'ch bod am hawlio iawndal ariannol am werth yr eitemau rydych yn eu hildio, dylech ddilyn y camau â nodir yn Atodiad C sy'n ymwneud ag ildio arfau ymosodol. Dylech ddilyn y gweithdrefnau o gam 7 ymlaen.
7	Os ydych yn ceisio ildio arf tanio, gyda chyfarpar ategol a/neu fwledi neu hebddynt, byddwch yn ddeiliad tystysgrif arfau tanio dilys. Dylech ddisgwyl i'ch heddlu lleol gysylltu â chi i drefnu casglu neu ildio'ch arf tanio. Os na fydd eich heddlu lleol yn cysylltu â chi, ewch i gam 8. Os bydd eich heddlu lleol yn cysylltu â chi, ewch i gam 9.
8	Os ydych yn ddeiliad tystysgrif ddilys sy'n cynnwys arf tanio a bwledi sy'n gymwys o dan y cynllun hwn ac nad ydych yn clywed gan eich heddlu lleol, dylech gysylltu â'r llu i wneud trefniadau ar gyfer casglu neu ildio'ch arf tanio. Ar ôl i'r trefniadau hyn gael eu gwneud, ewch i gam 9.

9	Ar ôl i'r heddlu wneud trefniadau ar gyfer casglu ac ildio'ch arf tanio a'ch bwledi, lle mae'n berthnasol, dylech sicrhau bod yr arf yn cael ei wneud yn ddiogel yn unol â'r canllawiau a nodir yn Rhan 4 o'r ddogfen hon cyn i'r heddlu gyrraedd eich safle neu cyn mynychu gorsaf heddlu, os gofynnir i chi wneud hynny. Yna ewch i gam 10.
10	Os ydych yn dymuno hawlio iawndal am eich arf(au) tanio a'r bwledi cysylltiedig sy'n cael eu hildio, a ydych yn derbyn gwerth safonol yr iawndal am eich eitem(au) fel y nodir yn y Rhestr Werthoedd gyhoeddedig (mae Atodiad B y canllawiau'n darparu rhagor o wybodaeth)? Os mai 'ydw' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i 11. Os mai 'nac ydw' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn ewch i 12.
11	Os derbyniwch werth safonol yr iawndal, rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen hawlio iawndal. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen hawlio iawndal o gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, dylech ofyn am ffurflen trwy e-bost yn OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk cyn i'r ildio ddigwydd. Bydd angen i chi roi eich ffurflen iawndal wedi'i chwblhau'n llawn i'r heddlu ar adeg ildio'ch eitem(au). Bydd yr heddlu'n darparu derbynneb, gyda chyfeirnod unigryw y dylech ei gadw mewn man diogel. Yna ewch i gam 13.
12	Os nad ydych yn derbyn gwerth safonol yr iawndal ac yn dymuno ceisio swm gwahanol, rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen hawlio iawndal a darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwerth uwch yr ydych yn ei hawlio. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen hawlio iawndal o gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, dylech ofyn am ffurflen trwy e-bost yn OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk cyn i'r ildio ddigwydd. Bydd angen i chi roi eich ffurflen iawndal wedi'i chwblhau'n llawn, gyda thystiolaeth gefnogol o werth, i'r heddlu ar adeg ildio'ch eitem(au). Bydd yr heddlu'n darparu derbynneb, gyda chyfeirnod unigryw y dylech ei gadw mewn man diogel. Yna ewch i gam 13.
13	Bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl ynghylch eich cais am iawndal.

Atodiad E: Cynllun Ildio ac iawndal Deddf Arfau Ymosodol - Ffurflen Hawlio



Home Office

At ddefnydd yr heddlu yn unig
Cyfeirnod unigryw:**CYNLLUN ILDIO AC IAWNDAL Y DDEDDF ARFAU YMOSODOL
CYNLLUN IAWNDAL - FFURFLEN HAWLIO**

Sicrhewch eich bod wedi darllen y canllawiau cysylltiedig cyn llenwi'r ffurflen hon)

CWBLHEWCH MEWN PRIFLYTHRENNAU BLOC**RHAN A – Eich manylion**

Teitl					
Enw(au) Cyntaf					
Cyfenw					
Dyddiad Geni	<i>Diwrnod</i>		<i>Mis</i>		<i>Blwyddyn</i>
Eich cyfeiriad	<i>Rhif neu enw'r ty</i>				
	<i>Stryd</i>				
	<i>Pentref, Tref neu Ddinas</i>				
	<i>Sir</i>				
	<i>Cod Post</i>				
Rhif Cyswllt					
E-bost					

RHAN B – Pa eitemau ydych yn eu hildio i'r heddlu? Ticiwch y blwch(blychau) perthnasol.

☐	Arfau tanio – os felly, cwblhewch fanylion yr eitemau rydych yn eu hildio yn Rhan F y ffurflen hon.
☐	Cyfarpar Ategol Arfau Tanio - os felly, cwblhewch fanylion yr eitemau rydych yn eu hildio yn y rhestr yn Rhan G y ffurflen hon.
☐	Arfau ymosod - os felly, cwblhewch fanylion yr eitemau rydych yn eu hildio yn y rhestr yn Rhan H y ffurflen hon.

RHAN C – Ydych chi am hawlio iawndal ariannol am yr eitem(au) rydych yn ei/eu hildio i'r heddlu? Sylwch fod rhaid i'ch cais fod yn £30 neu'n fwy i fod yn gymwys i gael iawndal. Ticiwch y bwch sy'n berthnasol.

Ydw	☐	Nawr ewch i Ran D y ffurflen hon
Nac ydw	☐	Nawr ewch i Ran E y ffurflen hon

RHAN D – Eich cyfrif banc

Gwneir pob taliad iawndal gyda siec os penderfynir bod iawndal yn daladwy. Rhewch fanylion y cyfrif banc yma y telir unrhyw iawndal a ddyfernir i chi iddo. Bydd y manylion hyn yn cael eu cynnwys ar unrhyw siec a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref.

Enw deiliad y cyfrif	
Rhif y cyfrif	
Cod didoli'r banc	

RHAN E – Datganiad a llofnod:

- Rwyf yn datgan fy mod wedi darllen y canllawiau ar gyfer y cynllun.
- Rwyf yn datgan mai fi yw perchennog cyfreithiol yr arf(au) yr wyf yn eu hildio i'r heddlu ac fe gafodd/fe gawsant eu caffael yn gyfreithlon gennyf.
- Rwyf yn cadarnhau fy mod yn deall, wrth ildio'r eitem(au) a ddisgrifir yn Rhannau F - H o'r ffurflen hon, i'r heddlu, fy mod wedi ildio unrhyw hawl i berchnogaeth neu ddefnydd o'r eitem(au).
- Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi bod yn berchen ar yr arf(au) ar y dyddiad perthnasol neu wedi contractio i'w gaffael ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny er mwyn bod yn gymwys i wneud hawliad. Mae'r dyddiadau hyn fel sy'n dilyn:

Ar gyfer cyllyll ac arfau ymosodol

- wedi'u perchen neu wedi'u contractio i gaffael yr arf ar neu cyn **20 Mehefin 2018** (oni bai mai cyllell seiclwn yw hon, gweler isod; ac
- yn achos cyllell seiclwn wedi'i berchen neu wedi'i chontractio i gaffael yr arf ar neu cyn **22 Ionawr 2019**

Ar gyfer arfau tanio

- wedi'u perchen neu wedi'u contractio i gaffael yr arf tanio ar neu cyn **20 Mehefin 2018**, gyda hawl i gael yr arf tanio hwnnw yn eich meddiant yn rhinwedd tystysgrif arf tanio sydd gennych neu yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

Ar gyfer stociau bwmp

- wedi'u perchen neu wedi'u contractio i gaffael y stoc bwmp ar neu cyn **20 Mehefin 2018**; ac
- ni fewnforiwyd y stoc bwmp i'r Deyrnas Unedig ar neu ar ôl **4 Rhagfyr 2017**

Ar gyfer cyfarpar ategol

- wedi'u perchen neu wedi'u contractio i gaffael y cyfarpar ar neu ar ôl **20 Mehefin 2018**

- Os ydych chi'n ceisio iawndal: byddaf yn derbyn y gwerth rhestredig mewn perthynas â'r eitemau yr wyf yn gwneud hawliad amdanynt. Ticiwch y blwch sy'n berthnasol.

Ie

☐

Na

☐

Rhai

☐

- Os yw "Ie" wedi'i dicio, derbyniaf y gall yr heddlu gael gwared ar yr eitem(au) dan sylw ar unwaith.
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r holl eitemau a restrir yn Rhannau F - H y cais hwn yn gymwys i gael taliad o dan delerau cyhoeddedig y cynllun hwnnw.
- Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rwyf yn awdurdodi'r heddlu i drosglwyddo'r wybodaeth a gynhwysir ar y ffurflen hon i'r Swyddfa Gartref at ddibenion prosesu unrhyw hawliad yr wyf yn ei wneud am iawndal ariannol.

Llofnod y perchennog cyfreithiol

Dyddiad.....

Y person sy'n ildio'r eitem(au) os nad y perchennog cyfreithiol

Os ydych yn ildio'r eitem(au) ar ran y perchennog cyfreithiol, nodwch y manylion ar y dudalen nesaf. Mae hyn yn ychwanegol at lofnod y perchennog cyfreithiol uchod.

Os ydych yn ildio eitem(au) ar ran y perchennog cyfreithiol, os nad yw'r perchennog yn gallu gwneud hynny am unrhyw reswm, cwblhewch y wybodaeth ddilynol amdanoch:

Teitl					
Enw(au) Cyntaf					
Cyfenw					
Dyddiad Geni	<i>Diwrnod</i>		<i>Mis</i>		<i>Blwyddyn</i>
Eich cyfeiriad	<i>Rhif neu enw'r tŷ</i>				
	<i>Stryd</i>				
	<i>Pentref, Tref neu Ddinas</i>				
	<i>Sir</i>				
	<i>Cod Post</i>				

Llofnod y person sy'n ildio'r eitem(au) os yw'n wahanol i'r perchennog cyfreithiol.

Llofnod.....

Dyddiad.....

MANYLION YR EIDDO SY'N CAEL EI ILDIO (I'W GWBLHAU GAN YR HAWLYDD)

RHAN F – ARFAU TANIO (LLOEGR, CYMRU, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON)

Cyf. Defnydd Swyddo gol yn Unig	Eitem	Faint?	Yn ceisio iawndal? Nodwch Y neu N	Os Y, a ydych yn derbyn gwerth safonol? Nodwch Y neu N	Os N ac yn hawlio gwerth unigol, nodwch werth (£)	A ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi gwerth unigol? Nodwch Y neu N	Cyfansw m yr hawliad am eitem(au) (£)
				GwerthS afonol			
F1	Rhyddhau â Lifer 9mm			£2,240			
F2	Rhyddhau â Lifer .45 ACP			£2,362			
F3	Rhyddhau â Lifer .223			£4,445			
F4	Rhyddhau â Lifer .308			£5,105			
F5	Reiffi VZ58 MARS (calibr 5.56 x 45 a calibr 7.62 x 39)			£1,950			
F6	Stoc bwmp			Amherth nasol			

RHAN G – CYFARPAR ATEGOL ARFAU TANIO (LLOEGR, CYMRU, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON)

<i>Cyf. Defnydd Swydd ogol yn Unig</i>	Eitem	Faint?	Yn ceisio iawndal? Nodwch Y neu N	Os Y, a ydych yn derbyn gwerth safonol? Nodwch Y neu N	Os N ac yn hawlio gwerth unigol, nodwch werth (£)	A ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi gwerth unigol? Nodwch Y neu N	Cyfanswm yr hawliad am eitem(au) (£)
				GwerthS afonol			
A1	Dolen Lenwi AR wedi'i huwchraddio			£90			
A2	Cliciedi wedi'u huwchraddio			£150			
A3	Pen blaen wedi'i uwchraddio			£150			
A4	Gafael Pen blaen, rheiliau gafael, VFG's ac ati			£50			
A5	Gafaelion pistol			£26			
A6	Cydosodiadau tiwb clustogi			£60			
A7	Stoc carn			£60			
A8	Pinnau Gweithredu			£20			
A9	Anelau Haearn			£115			
A10	Mowntiau sling			£50			
A11	Gafiau yr un			£70			
A12	Dewiswyr diogelwch			£50			
A13	Botymau ystorgelloedd			£45			
A14	Ystorgelloedd			£28			
A15	Anelau electronig			£170			
A16	Sgopau reiffl optegol			£160			
A17	Mowntiau anelau			£50			

Os ydych yn ildio unrhyw gyfarpar arall sydd wedi'i ddylunio neu ei addasu i'w ddefnyddio mewn cysylltiad ag arfau tanio a waherddir gan y Ddeddf Arfau Ymosodol ac nad oes ganddo unrhyw ddefnydd ymarferol mewn cysylltiad ag unrhyw arf tanio nad yw'n arf gwaharddedig, cynhwyswch y manylion ar y dudalen nesaf. Nodwch hefyd a ydych yn ceisio iawndal, faint o iawndal a rhoch dystiolaeth o'r prisiad hwnnw i gefnogi'ch cais.

RHAN G – PARHAD

<i>Cyf. Defnydd Swyddo gol yn Unig</i>	Eitem	Faint?	Yn ceisio iawndal? Nodwch Y neu N	Os Y, nodwch y swm a hawlir fesul eitem.	A ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi gwerth? Nodwch Y neu N	Cyfanswm yr hawliad am eitem(au) (£)
A18						

archived

RHAN H – ARFAU YMOSODOL (LLOEGR A CHYMRU YN UNIG)

Er mwyn helpu i egluro pa eitemau a fydd yn destun gwaharddiad, mae Rhestr Gwerthoedd y Cynllun Ildio ac Iawndal yn www.gov.uk yn cynnwys disgrifiadau o bob un o'r eitemau a restrir fel Arfau Ymosodol.

Cyf. Defnydd Swyddogol yn Unig	Eitem	Faint?	Yn ceisio iawndal? Nodwch Y neu N	Os Y, a ydych yn derbyn gwerth safonol? Nodwch Y neu N	Os N ac yn hawlio gwerth unigol, nodwch werth (£)	A ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi gwerth unigol? Nodwch Y neu N	Cyfanswm yr hawliad am eitem(au) (£)
				GwerthSafonol			
OW1	Cyllell glec (neu 'gwn clec')			£20			
OW2	Cyllell disgyrchiant			£40			
OW3	Cyllell sombi			£10			
OW4	Cyllell seiclun (a elwir hefyd yn 'gyllell droellog')			£30			
OW5	Cleddyf crwm			£15			
OW6	Pastwn			£10			
OW7	Cyllell llechwraidd			£3			
OW8	Cyllell gudd			£5			
OW9	Dyfais Migyrnau			£2			
OW10	Ffon cleddyf			£12			
OW11	Crafanc llaw			£9			
OW12	Cyllell bwcl gwregys			£5			
OW13	Dagr gwthio			£2			
OW14	Kubotan gwag			£3			
OW15	Crafanc troed			£7			
OW16	Shuriken (a elwir hefyd yn 'shaken' neu 'seren marwolaeth')			£5			
OW17	Balisong (a elwir hefyd yn 'gyllell glöyn byw')			£9			
OW18	Pastwn telescopig			£20			
OW19	Pibell chwythu (a elwir hefyd yn 'gwn chwythu')			£14			
OW20	Kusari gama			£35			

OW21	Kusari (neu manrikigusari)			£10				
OW22	Kyoketsu shoge			£20				

At ddefnydd yr heddlu

Ar ôl ei chwblhau, rhaid i'r heddlu gwblhau'r dderbynnab yn Atodiad B. Yna dylid anfon y ffurflen gyfan, gan gynnwys y dderbynnab at OWACompensationScheme@homeoffice.gov.uk. Bydd y Swyddfa Gartref yn adolygu'r hawliad ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r hawlydd i gadarnhau cynnydd a'r camau nesaf cyn gynted â phosibl.

Rhaid rhoi'r dderbynnab wedi'i chwblhau yn Atodiad B i'r hawlydd.

archived

Atodiad A: Canllawiau ar gyfer cwblhau Cynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol - Ffurflen Hawlio

Mae'r adran hon yn darparu arweiniad i unigolion sy'n llenwi'r ffurflen hon. Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn 'Deddf Arfau Ymosodol 2019: cynllun ildio ac iawndal ar gyfer rhai arfau tanio ac arfau ymosodol - Canllawiau ar gyfer ildio a hawlio iawndal' sydd ar gael ar www.gov.uk. Fel arall gallwch ofyn am gymorth yn yr orsaf heddlu lle rydych yn ildio'ch eitemau, gallwch e-bostio'ch cwestiwn at OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk.

RHAN A – Eich manylion

Defnyddiwch y Rhan hon i ddarparu'r manylion perthnasol yn y blychau cywir. Bydd angen i'r heddlu wirio pwy ydych chi ac mae'n bwysig darparu manylion cyswllt cywir fel y gellir cysylltu â chi ynghylch eich hawliad(-au) am iawndal. Gall eich rhif ffôn fod yn llinell dir neu'n ffôn symudol.

Dylai Rhan A gynnwys cyfeiriad cyswllt e-bost. Ar hyn o bryd, mae staff y Swyddfa Gartref yn gweithio gartref yn bennaf, a bydd cyswllt trwy e-bost yn hytrach na thrwy'r post yn osgoi unrhyw oedi wrth ystyried hawliadau neu dalu iawndal.

RHAN B – Pa eitemau ydych chi'n eu hildio i'r heddlu?

Mae'r Rhan hon yn gofyn i chi gadarnhau a ydych yn ildio Arfau Tanio, Cyfarpar Ategol Arfau Tanio neu Arfau Ymosodol. Ticiwch y blwch(blychau) sydd nesaf at y math o arf rydych yn ei ildio. Gallwch dicio mwy nag un blwch. Mae Rhan B hefyd yn cyfeirio at gwblhau Rhannau F, G, a H. I gael canllawiau ar gwblhau'r Rhannau hyn, gweler isod.

RHAN C – Ydych chi am hawlio iawndal ariannol am yr eitem(au) rydych yn ei/eu hildio i'r heddlu?

O dan Gynllun Ildio ac iawndal y Ddeddf Arfau Ymosodol, mae gan berchnogion cyfreithlon a chymwys arfau tanio ac arfau ymosodol hawl i iawndal ariannol i dalu gwerth unrhyw eitem sy'n cael ei hildio. Defnyddiwch y Rhan hon i nodi a ydych yn hawlio iawndal ariannol trwy dicio'r blwch perthnasol - 'Ydw' neu 'Nac ydw'.

Sylwch, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi rhestr werthoedd sy'n cynnwys swm safonol yr iawndal a delir i berchnogion cyfreithlon eitemau sy'n cael eu hildio i'r heddlu o dan y cynllun hwn. Os ydych yn ystyried bod eich eitem yn werth mwy na swm safonol yr iawndal a gyhoeddwyd, mae'n agored i chi wneud cais am y swm uwch ac os ydych yn dymuno gwneud hynny mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth dderbyniol o'r gwerth hwn. Bydd y dystiolaeth hon, y mae'n rhaid ei chyflwyno ar adeg ildio'r eitem i'r heddlu, yn cael ei hanfon ymlaen at y Swyddfa Gartref i'w hystyried ochr yn ochr â'ch hawliad am iawndal. Y Swyddfa Gartref fydd yn penderfynu faint o iawndal sy'n ddyledus i chi. Os yw'ch hawliad am dros £250 ar gyfer unrhyw eitem sengl, heblaw arf tanio neu gyfarpar ategol, argymhellir eich bod yn darparu ffotograff o'r eitem ynghyd â'r dystiolaeth o'i werth.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am eich hawl bosibl a sut i hawlio iawndal yn 'Deddf Arfau Ymosodol 2019: cynllun ildio ac iawndal ar gyfer arfau tanio ac arfau ymosodol penodol - Canllawiau ar gyfer ildio a hawlio iawndal' sydd ar gael ar www.gov.uk.

RHAN D – Eich cyfrif banc

Os penderfynir bod iawndal yn daladwy, byddwn yn cyhoeddi siec i'r swm hwnnw gael ei dalu i'r cyfrif a bennir yn Rhan D o'r ffurflen hon.

RHAN E – Datganiad

Mae'n ofynnol i chi gwblhau'r Rhan hon i gadarnhau mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem(au) rydych yn eu hildio, eu bod wedi'u caffael yn gyfreithlon a'ch bod yn gymwys i hawlio iawndal, os yw'n berthnasol. Dylech hefyd fod wedi darllen a sicrhau eich bod yn deall y canllawiau ar gyfer y cynllun cyn llofnodi. Mae llofnodi'r Rhan hon hefyd yn arwydd eich bod yn deall, wrth ildio'r eitem(au) eich bod yn ildio'ch perchnogaeth o'r eitem(au) rydych yn eu hildio.

Os ydych yn hawlio iawndal ariannol, mae'n ofynnol i chi hefyd ddefnyddio'r Rhan hon i gadarnhau:

- byddwch yn derbyn y gwerth iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer eich eitem(au) (o dan Rannau F, G a H);
- ni fyddwch yn derbyn y gwerth iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer eich eitem(au) (o dan Rannau F, G a H) a byddwch yn ceisio swm uwch;
- byddwch yn derbyn y gwerth iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer rhywfaint o'ch eitem(au) ond ni fyddwch yn derbyn y gwerth iawndal a restrir ar gyfer eitem(au) arall/eraill (o dan Rannau F, G a H).

Rhaid i chi dicio pa flwch sy'n berthnasol i'ch cais.

Os ydych yn hawlio iawndal am arf ymosodol, mae'n rhaid eich bod wedi bod yn berchennog cyfreithlon ar 20 Mehefin 2018 (neu fel arall wedi'ch contractio'n gyfreithlon i gaffael yr arf ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny) oni bai fod yr eitem yn gyllell seicl. Yn achos cyllell seicl, rhaid i chi fod wedi bod yn berchennog cyfreithlon ar 22 Ionawr 2019 (neu fel arall wedi'ch contractio'n gyfreithlon i gaffael yr arf ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny).

Os ydych yn hawlio iawndal am arf tanio, cyfarpar ategol neu stoc bwmp, mae'n rhaid mai chi oedd y perchennog cyfreithlon (neu fel arall wedi'ch contractio'n gyfreithlon i gaffael yr eitem(au)) cyn 20 Mehefin 2018. Yn achos arf tanio, rhaid eich bod wedi bod yn berchen neu wedi'ch contractio i gaffael yr arf tanio ar 20 Mehefin 2018 neu cyn hynny, gyda hawl i gael yr arf tanio hwnnw yn eich meddiant yn rhinwedd tystysgrif arf tanio a ddelir gennych neu yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddeliwr arfau tanio cofrestredig.

Yn ogystal, yn achos stoc bwmp, rhaid i chi beidio â bod wedi mewnfario'r eitem i'r Deyrnas Unedig ar neu ar ôl 4 Rhagfyr 2017.

Os gwnaethoch gaffael unrhyw un o'r eitemau uchod ar ôl y dyddiadau perthnasol, bydd angen i chi gael gwared ar yr eitemau'n ddiogel a dylech wneud hynny trwy eu hildio i'r heddlu mewn gorsaf heddlu ddynodedig. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys i hawlio iawndal o dan y cynllun hwn.

Mae llofnodi'r datganiad hefyd yn cadarnhau eich bod yn cytuno y gall yr heddlu drosglwyddo'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen hon i'r Swyddfa Gartref at ddibenion prosesu unrhyw hawliad yr ydych yn ei wneud am iawndal ariannol.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am eich hawl bosibl a sut i hawlio iawndal yn 'Deddf Arfau Ymosodol 2019: cynllun ildio ac iawndal ar gyfer arfau tanio ac arfau ymosodol penodol - Canllawiau ar gyfer ildio a hawlio iawndal' sydd ar gael ar www.gov.uk.

RHANNAU F, G, a H – Manylion am yr eiddo sy'n cael ei ildio

Yn y Rhannau hyn fe welwch y rhestr o'r arfau tanio, cyfarpar ategol arfau tanio ac arfau ymosodol sy'n destun ildio, yn ogystal â gwerth safonol yr iawndal sy'n daladwy am bob eitem os ydych yn ceisio iawndal.

Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r rhannau hyn yn gywir er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod faint o eitemau rydych yn eu hildio, pa rai o'r eitemau hyn rydych yn ceisio iawndal amdanynt, a beth rydych yn ystyried yw gwerth pob eitem unigol.

Os ydych yn ceisio mwy na'r iawndal ar werth safonol, mae'n rhaid i chi gwblhau'r Rhannau hyn i nodi'r gwerth rydych yn credu yw gwerth yr eitem ac i gadarnhau eich bod wedi darparu tystiolaeth i gefnogi'r gwerth hwn. Os ydych yn hawlio mwy na £250 am unrhyw arf ymosodol, argymhellir bod y dystiolaeth ategol rydych yn ei darparu'n cynnwys ffotograff o'r arf.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am eich hawl bosibl a sut i dystiolaethu'ch prisiad os ydych yn hawlio swm uwch na'r gwerth safonol yn 'Deddf Arfau Ymosodol 2019: cynllun ildio ac iawndal - Canllawiau ar gyfer ildio a hawlio iawndal' sydd ar gael ar www.gov.uk.

archived

Atodiad B – Mae'r adran hon i'w chwblhau gan yr heddlu

I'w chwblhau gan yr heddlu Ar ôl ei chwblhau, darperir copi i'r hawlydd fel derbynneb.

Rhif cyfeirnod unigryw'r cais:	
Fformat yw Cod Gorsaf yr Heddlu + Cyfeirnod archebu'r eiddo. E.e. XXX-123456	
Heddlu	
Enw'r swyddog neu'r staff sy'n derbyn (printiwch)	
Enw'r orsaf sy'n derbyn	
Dyddiad derbyn	
Hunaniaeth yr hawlydd wedi'i chadarnhau? (Y/N)	
Perchnogaeth gan yr hawlydd wedi'i chadarnhau? (Y/N)	
Pob eitem a ildwyd wedi'i nodi'n gywir yn Rhannau F-H? (Y/N) Os na, defnyddiwch y blwch isod ar gyfer manylion	
A yw gwerth yr hawliad yn £30 neu'n fwy? (Y/N)	
Prisiad yr eitemau perthnasol wedi'i ddarparu a'i atodi? (Y/N)	
Datganiadau wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan yr ymgeisydd (Y / N)	
Lle ildwyd yr arf tanio, nodwch y rhif tystysgrif arfau tanio perthnasol	

Sylwadau ychwanegol: Mae'r gofod hwn i'r heddlu gofnodi unrhyw wybodaeth arall na ddarperir mewn man arall ar y ffurflen hon. Os oes angen, gellir cofnodi rhagor o fanylion ar dudalen arall.

At ddefnydd yr heddlu: Ar ôl ei chwblhau, dylid anfon y ffurflen gyfan gyda'r holl ddogfennau ategol at OWACompensationScheme@homeoffice.gov.uk gyda chyfeirnod unigryw'r hawliad am iawndal wedi'i ychwanegu at linell y pwnc. Bydd y Swyddfa Gartref yn adolygu'r hawliad ac

yn ymateb yn uniongyrchol i'r hawlydd i gadarnhau cynnydd a'r camau nesaf maes o law. Dylid rhoi copi neu ffotograff o'r dderbynneg wedi'i chwblhau yn Atodiad B i'r hawlydd



DOGFEN DDRAFFT AR GYFER CYFEIRIO YN UNIG

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/offensive-weapons-act-surrender-and-compensation-scheme>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk.